The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Green Gen Vyrnwy Frankton – EN020035

# Green Gen Cymru

# Log Cyngor Adran 51 / Section 51 Advice Log

# Fersiwn / Version: 08/04/2026

Mae dyletswydd statudol o dan adran 51 (a51) o Ddeddf Cynllunio 2008 i’r Arolygiaeth Gynllunio gofnodi’r cyngor y mae’n ei roi mewn perthynas â chais neu gais posibl, a sicrhau bod hwn ar gael i’r cyhoedd.

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys cofnod o’r cyngor a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth i’r Ymgeisydd (Green Gen Cymru) a’i ymgynghorwyr yn ystod y cam cyn ymgeisio. Bydd yn cael ei ddiweddaru gan yr Arolygiaeth ar ôl pob rhyngweithiad gyda'r Ymgeisydd pan ddarparwyd a51. Bydd yr Ymgeisydd bob amser yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gofnod cyngor drafft yr Arolygiaeth cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Bydd yr ymgeisydd yn defnyddio'r Log Cyngor hwn fel sail ar gyfer dangos ystyriaeth i gyngor adran 51 yn y cais.

There is a statutory duty under section 51 (s51) of the Planning Act 2008 for the Planning Inspectorate to record the advice that it gives in relation to an application or potential application, and to make this publicly available.

This document comprises a record of the advice that has been provided by the Inspectorate to the Applicant (Green Gen Cymru) and their consultants during the pre-application stage. It will be updated by the Inspectorate after every interaction with the Applicant during which s51 has been provided. The Applicant will always be given the opportunity to comment on the Inspectorate’s draft record of advice before it is published.

The applicant will use this Advice Log as the basis for demonstrating regard to section 51 advice within the application.

| **Green Gen Vyrnwy Frankton**<br><br>**s51 Log Cyngor - Mynegai**<br>**s51 Advice Log - Index** | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod**<br>**Date of meeting** | **Trosolwg o'r cyfarfod**<br>**Meeting overview** |
| 28 Hydref 2024<br>28 October 2024 | Sylwadau yr Arolygiaeth ar Ddogfen y Rhaglen<br>Inspectorate's comments on the Programme Document |
| 4 Tachwedd 2024<br>4 November 2024 | • Cyflwyniadau<br>• Diweddariad ar y Prosiect<br>• Diweddariad gan yr Arolygiaeth ar ganllawiau newydd<br>• Trefniadau Gwaith ar gyfer y Gwasanaeth Haen Gwella<br>• Dogfen Rhaglen<br>• Cyfarfodydd nesaf a chyfarfodydd y dyfodol<br>• AoB<br><br>• Introductions<br>• Project Update<br>• Update from the Inspectorate on new guidance<br>• Working Arrangements for the Enhancement Tier Service<br>• Programme Document<br>• Next and future meetings<br>• AoB |
| 10 Mehefin 2025<br>10 June 2025 | • Diweddariad ar y Prosiect<br>• DD's<br>• AoCM<br>• Cross Border Meetings<br>• AoB<br><br>• Project Update<br>• Draft Documents<br>• Adequacy of Consultation Milestone<br>• Cross Border Meetings<br>• AoB |

| | |
|---|---|
| 8 Medi 2025<br><br>8 September 2025 | • Diweddariad ar y Prosiect<br>• Diweddariad ar yr Ymgynghoriad<br>• Ymgysylltu â Rhanddeiliaid<br>• Cyfarfodydd Trawsffiniol<br>• Diweddariad ar Dir<br><br>• Project Update<br>• Consultation Update<br>• Stakeholder Engagement<br>• Land Update |
| 7 Ionawr 2026<br><br>7 January 2026 | • Diweddariad ar y Prosiect<br>• Diweddariad ar yr Ymgynghoriad<br>• Ymgysylltu â Rhanddeiliaid<br>• Diweddariad ar Dir<br>• Cyfarfodydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn y Dyfodol<br><br>• Project Update<br>• Consultation Update<br>• Stakeholder Engagement<br>• Land Update<br>• Future PINS Meetings |
| 8 April 2026<br><br>8 Ebrill 2026 | • Diweddariad ar y Prosiect<br>• Diweddariad ar yr Ymgynghoriad<br>• Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Technegol<br>• Diweddariad ar Dir<br>• Adborth ar ddogfennau a gyflwynwyd<br>• Cyfarfodydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn y Dyfodol<br>• Unrhyw Fater Arall<br><br>• Project Update<br>• Consultation Update<br>• Technical Stakeholder Engagement<br>• Land Update<br>• Feedback on submitted documents<br>• Future PINS meetings<br>• AOB |
| | |
| | |
| | |

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |

| Green Gen Vyrnwy Frankton - Llyfrgell Gynghori s51 Advice Library | |
|---|---|
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 28 Hydref 2024**<br>**Meeting date: 28 October 2024** |
| Sylwadau yr Arolygiaeth ar Ddogfen y Rhaglen<br><br>Inspectorate's comments on the Programme Document | **CYMRAEG:**<br>Mae'r Arolygiaeth yn nodi y cyflwynwyd y Ddogfen Rhaglen i'r Arolygiaeth ym mis Gorffennaf 2024, ac ers hynny mae gwefan yr Ymgeisydd yn cadarnhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi cael ei ohirio tan "y gwanwyn 2025". Fel y cyfryw, mae'n rhaid i'r Ddogfen Rhaglen gael ei diwygio yn unol â hynny, ac mae'n rhaid i'r fersiwn ddiwygiedig gael ei rhannu gyda'r Arolygiaeth. Er hynny, mae'r Arolygiaeth yn darparu'r sylwadau canlynol yn seiliedig ar y Ddogfen Rhaglen a gyflwynwyd.<br><br>Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd sicrhau bod y Ddogfen Rhaglen yn cael ei chyflwyno a'i chynnal ar wefan yr Ymgeisydd.<br><br>Mae paragraff 3.1 y Ddogfen Rhaglen yn dweud "Nid yw Green GEN Cymru yn disgwyl gwneud cais am archwiliad "carlam" ar gyfer y Prosiect ar hyn o bryd, ond os gellir datrys cymhlethdodau trwy'r dull Gwasanaethau Cyn-ymgeisio, byddai'n croesawu'r cyfle i ystyried p'un ai gwneud hynny yn y dyfodol". Mae'r Prosbectws Cyn-ymgeisio yn cadarnhau y dylai diddordeb ymgeisydd mewn Gweithdrefn Garlam gael ei sefydlu yn y Cyfarfod Cychwynnol, pryd y bydd yr Arolygiaeth yn rhoi cyngor ynglŷn ag addasrwydd y cais ar gyfer y Weithdrefn Garlam. Gan nodi bod y Weithdrefn Garlam ffurfiol wedi cael ei chyflwyno ers i'r Cyfarfod Cychwynnol gael ei gynnal, dylai'r Ymgeisydd ystyried pa mor realistig yw'r cynnig hwn. Os oes unrhyw fwriad i ddilyn y llwybr Gweithdrefn Garlam ffurfiol, bydd angen rhoi gwybod i randdeiliaid am y posibilrwydd hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Os na cheisir y Weithdrefn Garlam ffurfiol, byddai'r Arolygiaeth yn ceisio cynnal yr archwiliad mewn llai na 6 mis o hyd, os ystyrir bod hynny'n ymarferol.<br><br>Mae paragraff 3.3 y Ddogfen Rhaglen yn nodi y byddai'r Ymgeisydd yn croesawu cymorth yr Arolygiaeth i hwyluso mewn cyfarfodydd aml-barti. Dylai'r Ddogfen Rhaglen nodi pryd mae'r Ymgeisydd yn disgwyl y bydd angen y cyfarfodydd hyn a pha faterion y disgwylir iddynt ymdrin â nhw. Dylai'r Ymgeisydd hefyd fod yn ymwybodol o uchafswm nifer y cyfarfodydd aml-barti y gellir eu cynnal bob blwyddyn, a amlinellir yn y Prosbectws, yn ogystal â'r cyfnod rhybudd ar gyfer cyfarfodydd o'r fath. |

| | |
|---|---|
| | Mae paragraff 3.4 y Ddogfen Rhaglen yn amlinellu elfennau'r gwasanaeth "y ***gallai*** [yr Ymgeisydd] groesawu cymorth" â nhw (pwyslais yr Arolygiaeth). A all yr Ymgeisydd gadarnhau mai'r rhestr hon yw'r rhestr derfynol o elfennau y mae'n dymuno ymgysylltu ynglŷn â nhw?<br><br>Mae adran 4 y Ddogfen Rhaglen yn rhoi cofnod ysgrifenedig o ba bryd y bydd tasgau'n cael eu gwneud. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe byddai hyn yn cael ei gofnodi yn y tabl a gyflwynir yn adran 4.11 a ddylai, yn hytrach na "chrynodeb o'r dyddiadau allweddol", fod yn amserlen gynhwysfawr o broses cyn-ymgeisio'r Ymgeisydd, y prif ddigwyddiadau gyda dyddiadau a cherrig milltir, yn unol â Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar y Cam Cyn-ymgeisio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn nodi y bwriedir i'r ymgynghoriad statudol gael ei gynnal ym mis Tachwedd 2024. Nid yw'n glir pryd y disgwylir i'r ymgynghoriad hwnnw ddod i ben. Os bydd yn digwydd o amgylch cyfnod y Nadolig, dylai'r Ymgeisydd ystyried ymestyn y dyddiad cau tan fis Ionawr 2025. Yn ogystal, atgoffir yr Ymgeisydd o'r gofyniad i ddarparu'r hysbysiad a46 i'r Arolygiaeth cyn yr ymgynghoriad statudol neu pan fydd yn dechrau.<br><br>Nid yw'n glir o'r Ddogfen Rhaglen p'un a yw'r Ymgeisydd wedi caniatáu amser ar gyfer cyfnod ymgynghori ychwanegol ar ôl i'r cyfnod ymgynghori statudol orffen. O ystyried natur linol y prosiect, mae'r Arolygiaeth yn cynghori'r Ymgeisydd i ystyried p'un a fyddai angen cyfnod ymgynghori ychwanegol cyn cyflwyno.<br><br>Er bod paragraff 4.5 yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo ar baratoi'r Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC), dylai'r Ddogfen Rhaglen nodi'r holl ddyddiadau sy'n berthnasol i'r SoCC yn llawn, gan gynnwys ymgynghori arno, yn unol â Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ar y Cam Cyn-ymgeisio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw'r Ddogfen Rhaglen yn nodi pryd mae'r Ymgeisydd yn disgwyl i gyfarfodydd gael eu cynnal gyda'r Arolygiaeth ac ymgyngoreion eraill allweddol. Diben y Ddogfen Rhaglen yw galluogi pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cyn-ymgeisio, yn enwedig ymgyngoreion statudol, i ddeall y graddfeydd amser a threfnu adnoddau'n effeithiol i gefnogi ymgysylltiad. Fel y cyfryw, dylid diwygio'r Ddogfen Rhaglen cyn gynted â phosibl i gynnwys y wybodaeth hon. Os nad oes modd nodi dyddiadau penodol, dylai'r Ddogfen Rhaglen o leiaf nodi'r mis pryd y disgwylir i gyfarfodydd penodol gael eu cynnal, y pynciau y disgwylir |

| | |
|---|---|
| | iddynt ymdrin â nhw a'r cyfranogwyr sy'n debygol o fod yn angenrheidiol. Dylid nodi os bydd yr Arolygiaeth yn cael llai na 6 wythnos o rybudd o gyfarfod, efallai na fydd modd i ni fynychu.<br><br>Ceir sawl cyfeiriad at "chwarteri" ar gyfer cyflwyno dogfennau, h.y. y Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori a'r adolygiad dogfennau drafft; y disgwylir y ddau "yn nhrydydd chwarter 2025" ar hyn o bryd. Diben y Ddogfen Rhaglen yw galluogi pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth cyn-ymgeisio, yn enwedig ymgyngoreion statudol, i ddeall y graddfeydd amser a threfnu adnoddau'n effeithiol i gefnogi ymgysylltiad. Fel y cyfryw, byddai'n ddefnyddiol pe gellid lleihau'r graddfeydd amser hyn, a chyhoeddi'r Ddogfen Rhaglen wedi'i diweddaru, maes o law.<br><br>Mae'r Ddogfen Rhaglen yn cyfeirio at drafod Cytundebau Perfformiad Cynllunio drafft gyda Chyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Amwythig, sef Awdurdodau cynhaliol y prosiect. Mae hefyd yn cyfeirio at drafodaethau cynnar ynglŷn â gwasanaethau cyngor yn ôl disgresiwn ar gyfer yr ymgyngoreion statudol perthnasol. Dylai'r Ymgeisydd gadarnhau p'un a yw'r trafodaethau hyn wedi symud ymlaen a ph'un a ddaethpwyd i gytundebau bellach. Os na, dylid nodi'r graddfeydd amser tebygol ar gyfer hyn yn y Ddogfen Rhaglen<br>.<br>Mae'r tabl yn 4.11 yn cyfeirio at gynnal y cyfarfod cychwynnol ar gyfer y prosiect hwn yn nhrydydd chwarter 2024. Fodd bynnag, mae'r cyfarfod cychwynnol eisoes wedi cael ei gynnal, felly pa gyfarfod y cyfeirir ato yma?<br><br>Mae paragraff 3.3 y Ddogfen Rhaglen yn gofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio adolygu 'dogfennau drafft ychwanegol' ac yn rhoi dyddiad o drydydd chwarter 2025 ar gyfer adolygu dogfennau drafft. Dylai'r Ymgeisydd gadarnhau pa ddogfennau drafft y mae'n bwriadu gofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio eu hadolygu a ph'un a yw'n bwriadu eu cyflwyno gyda'i gilydd. Yn dibynnu ar y dogfennau y gofynnir i'w hadolygu, mae'n ymddangos bod hyn yn agos at y dyddiad cyflwyno disgwyliedig ym mhedwerydd chwarter 2025, yn enwedig os yw'n debygol y bydd angen adolygu dogfen ymagwedd ddylunio. Dylid caniatáu digon o amser yn y rhaglen i gael adborth a mynd i'r afael â'r cyngor a roddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ôl adolygu dogfennau drafft.<br><br>**ENGLISH:**<br>The Inspectorate notes that the Programme Document (PD) was submitted to the Inspectorate in July 2024, and since |

| | |
|---|---|
| | then, the Applicant's website confirms that the statutory consultation has now been delayed to "Spring 2025". As such the Programme Document must be amended accordingly, and the revised version shared with the Inspectorate. Nevertheless, the Inspectorate provides the following comments based on the submitted PD.<br><br>The Applicant must ensure that the PD is hosted and maintained on the Applicant's website.<br><br>Paragraph 3.1 of the PD says "Green GEN Cymru does not currently envisage applying for a "fast track" examination for the Project, but in the event complexities can be resolved through the Pre-application Services approach, would welcome the opportunity to consider whether to do so in the future". The Pre-Application Prospectus confirms that an applicant's interest in a Fast Track procedure should be established at the Inception Meeting, at which the Inspectorate will provide advice to the application in relation to suitability for Fast Track. Noting that the formal FT procedure has been introduced since the Inception meeting took place, the Applicant should consider how realistic this proposition to be. If there is any intention to follow the formal FT route, stakeholders need to be made aware of this possibility as early as is practicable. If the formal FT procedure is not sought the Inspectorate would still seek to undertake the examination in a shorter than 6-month timescale, if it is considered practicable to do so.<br><br>Paragraph 3.3 of the PD sets out that the Applicant would welcome the Inspectorate's assistance with facilitating in multi partite meetings. The PD should set out when the Applicant envisages these meetings will be needed and what matters those meetings are expected to cover. The Applicant should also be aware of the maximum number of multi partite meetings that can be held annually, which is set out on the Prospectus as well as the notice period for such meetings. Paragraph 3.4 of the PD sets out the components of the service that the Applicant "***may*** welcome support" (The Inspectorate emphasis) on. Can the Applicant confirm that this list is the final list of components it wishes to engage in?<br><br>Section 4 of the PD sets out a written record of when tasks will be undertaken. However, it would be helpful if this was recorded in the table set out in section 4.11, which rather than a "summary of the key dates" should be a comprehensive timetable of the Applicant's pre-application process, the main events with dates and milestones, in line with The Planning Act 2008: Pre-application stage for Nationally Significant Infrastructure Projects Guidance. |

| | |
|---|---|
| | The Inspectorate notes that the statutory consultation is planned to be held in November 2024. It is not clear when that consultation is due to end. If falling around the Festive period, the Applicant should consider extending the deadline until January 2025. Additionally, the Applicant is reminded of the requirement to provide the Inspectorate with the s46 notification before or on commencement of the statutory consultation.<br><br>It is not clear from the PD whether the Applicant has allowed time for a further period of consultation after the close of the statutory consultation period. Given the linear nature of the project the Inspectorate advises the Applicant to consider whether a further consultation period prior to submission would be necessary.<br><br>Whilst paragraph 4.5 indicated that work on preparing the Statement of Community Consultation (SoCC) is underway, the PD should fully set out all dates relevant to the SoCC, including consultation on it, in line with The Planning Act 2008: Pre-application stage for Nationally Significant Infrastructure Projects Guidance.<br><br>The PD does not currently set out when the Applicant envisages meetings to be held with the Inspectorate and other key consultees. The purpose of the PD is to enable all those engaged in the pre-application service, particularly statutory consultees, to understand the timescales and to deploy resources effectively to support engagement, As such, the PD should be amended as soon as possible to include this information. If it is not possible to identify specific dates then as a minimum the PD should indicate the month when specific meetings are expected to be held, the topics expected to be covered in them & the participants that are likely to be needed. It should be noted that if the Inspectorate receives less than 6 weeks notice of a meeting it may not be possible for us to attend.<br><br>There are various references to “quarters” for the submission of documents ie the Adequacy of Consultation Milestone and draft document review; both of which currently envisaged in “Quarter 3 2025”. The purpose of the PD is to enable all those engaged in the pre-application service, particularly statutory consultees, to understand the timescales and to deploy resources effectively to support engagement, As such, it would be helpful if these timeframes could be narrowed, and the updated PD published, in due course. |

| | |
|---|---|
| | The PD makes reference to draft Planning Performance Agreements being discussed with Powys County Council and Shropshire Council, the host Authorities for the project. It also refers to early discussions covering discretionary advice services for the relevant statutory consultees. The Applicant should confirm whether these discussions have progressed and whether agreements have now been reached. If not, the likely timescales for this should be set out in the PD.<br><br>The table in 4.11 refers to the inception meeting for this project being held in Q3 2024. However, the inception meeting has already been held, so what meeting is being referred to here?<br><br>PD paragraph 3.3 seeks PINs review of 'additional draft documents' and provides a date of Q3 2025 for draft document review. The Applicant should confirm which draft documents it intends to request PINS to review and whether it is intended to submit them together. Dependent on the documents that a review is requested on, this appears to be close to the proposed submission in Q4 2025, particularly if a review of a design approach document is likely to be required. Adequate time should be allowed in the programme to receive feedback and address the advice given by PINs following draft document review. |
| **Pwnc**<br><br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 4 Tachwedd 2024**<br><br>**Meeting date: 4 November 2024** |
| Diweddariad ar y Prosiect<br><br>Project Update | **CYMRAEG:**<br><br>Holodd yr Arolygiaeth ynglŷn â'r graddfeydd amser ar gyfer cyflwyno prosiect ynni Llyn Lort, sef cais arfaethedig gan Bute Energy o dan y gyfundrefn gydsynio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, y mae'r prosiect hwn yn cynnig ei gysylltu â'r grid. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y graddfeydd amser ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau unigol yn debyg, ac na fyddai'r Ymgeisydd yn aros am ganlyniad prosiect Llyn Lort cyn cyflwyno'r wybodaeth hon. Dylai'r partïon geisio lleihau gorgyffyrddiadau o ran archwiliadau gymaint â phosibl, maes o law, os yw'r graddfeydd amser yn debyg.<br><br>Cyfeiriodd yr Arolygiaeth at y pedwerydd Parc Cenedlaethol arfaethedig ger Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, y mae'r ymgynghoriad yn ei gylch yn para tan 16 Rhagfyr 2024, a holodd ynglŷn â'i oblygiadau i'r prosiect. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod rhan o'r Datblygiad Arfaethedig o fewn ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig mewn rhai ardaloedd ac y |

| | |
|---|---|
| | byddai'n dilyn ei ddatblygiad yn ofalus. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod ymhellach mewn cyfarfodydd diweddaru ar y prosiect yn y dyfodol.<br><br>Cynghorwyd yr Ymgeisydd i fod yn ymwybodol o unrhyw orgyffyrddiad o ran ymgynghori, a cheisio ei leihau i'r eithaf, ar gyfer prosiectau is-orsaf y Grid Cenedlaethol a Llyn Lort, oherwydd gallai hyn ddrysu'r partïon. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn ymwybodol o hyn ac y bydd yn cymryd rhagofalon i osgoi dryswch, lle y bo'n bosibl h.y. trwy beidio â chynnal digwyddiadau ymgynghori yn rhy agos i'w gilydd yn yr un ardal.<br><br>Holodd yr Ymgeisydd b'un a yw Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) 2024, a ddiwygiodd y Rheoliadau CFfGR, yn berthnasol i'r prosiect hwn. Cynghorodd yr Arolygiaeth gan fod y prosiect wedi cael ei gwmpasu cyn 30 Ebrill 2024, nad yw'r rheoliadau wedi'u diweddaru yn berthnasol.<br><br>Yn dilyn ymholiad ynglŷn â sut byddai'r haen gwasanaeth manylach yn gweithio'n ymarferol, cynghorwyd yr Ymgeisydd i adolygu'r Prosbectws cyn-ymgeisio ac egluro pa elfennau y mae'n dymuno eu harchwilio gyda'r Arolygiaeth. Mae'r Prosbectws yn manylu ar y math o gymorth a gynigir yn ystod y cam cyn-ymgeisio.<br><br>Yn unol â'r Prosbectws, cynghorwyd yr Ymgeisydd i roi o leiaf chwe wythnos o rybudd ar gyfer unrhyw gyfarfod y dymunai ei gynnal gyda'r Arolygiaeth a/ neu unrhyw barti arall.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gadarnhau p'un a oedd ymgyngoreion statudol allweddol (fel Cyfoeth Naturiol Cymru) yn gallu ymwneud â'r haen gwasanaeth manylach, gan gynnwys beth oedd yr Ymgeisydd yn dymuno ei gael ganddynt.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth nad yw'n debygol y bydd y dudalen gyngor sy'n berthnasol i gynlluniau llinellol yn cael ei chyhoeddi tan ddechrau 2025.<br><br>Yn dilyn ymholiad ynglŷn â'r Ddogfen Cydymffurfio â Pholisïau, cynghorwyd yr Ymgeisydd i geisio llunio rhestr o'r polisïau pwysig/ perthnasol hynny gydag awdurdodau lleol y tu hwnt i'r Datganiad Polisi Cynllunio yn unig, er mwyn ceisio cadarnhau'r safbwyntiau polisi yr oeddent i gyd yn gweithio tuag atynt/ ohonynt yn eu mewnbwn. Cynghorwyd yr Ymgeisydd i adolygu prosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet fel enghraifft o gais polisi trawsffiniol.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth ynglŷn â chyhoeddi'r dudalen gyngor ar ddylunio da yn ddiweddar, a gyhoeddwyd ar 23 Hydref 2024, a'r angen i'r Ymgeisydd ddangos yn glir sut |

| | |
|---|---|
| | mae wedi ystyried y cyngor wrth baratoi ei gais ar gyfer cydsyniad datblygu.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd ynglŷn â phwysigrwydd dangos yn glir bod yr hierarchaeth liniaru wedi cael ei chymhwyso yn nogfennau'r cais.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth i ba raddau yr oedd yr Ymgeisydd wedi ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol ynglŷn â'u gallu i ymgysylltu â'r gwasanaeth cyn-ymgeisio manylach. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod ymgysylltu ynglŷn â'r mater hwn wedi bod yn gyfyngedig a chynghorodd yr Arolygiaeth fod trafodaethau'n dechrau cyn gynted â phosibl.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth fod y cyfarfod cyntaf a ganiateir o dan y gwasanaeth cyn-ymgeisio manylach yn dechrau o'r cyfarfod hwn. Cynhelir y cyfarfodydd ar sail blwyddyn dreigl h.y. uchafswm o wyth cyfarfod arall cyn 4 Tachwedd 2025.<br><br>Cynghorwyd yr Ymgeisydd i drafod ei raglen arolygu, dulliau a chwmpas amgylcheddol gyda chyrff ymgynghori. Dylid hefyd nodi unrhyw fylchau mewn cwmpas arolygu a dechrau trafod unrhyw ddulliau amgen arfaethedig gyda chyrff ymgynghori perthnasol.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The Inspectorate queried the timescales for the submission of the Llyn Lort energy project, which is a proposed application under the Developments of National Significance consenting regime, which this project proposes to connect to the grid. The Applicant confirmed that the timescales for the submission of the respective applications are similar, and that the Applicant would not wait for the outcome of the Llyn Lort project prior to submitting this information. Parties should seek to minimise examination overlaps as much as possible, in due course, if timescales are similar.<br><br>The Inspectorate queried the implications of the proposed fourth National Park, near the Clwydian Range and Dee Valley, with consultation running until 16 December 2024, on the project. The Applicant confirmed the Proposed Development falls partially within the proposed National Park boundary in some areas and would be following its development closely. Further discussions on this matter will take place at later project update meetings.<br><br>The Applicant was advised to be conscious of, and seek to minimise, any consultation overlap for the National Grid substation and the Llyn Lort projects, as this could cause confusion for parties. The Applicant confirmed it is mindful of this and will take precautions to avoid confusion where |

| | |
|---|---|
| | possible i.e. by not holding consultation events too close to each other in the same area.<br><br>The Applicant queried whether The Infrastructure Planning (Miscellaneous Provisions) Regulations 2024 (MP Regulations), which amended the APFP Regulations apply to this project. The Inspectorate advised that as the project was scoped before 30 April 2024, the updated regulations do not apply.<br><br>Following a query on how the enhanced tier service would work in practice, the Applicant were advised to review the pre-application Prospectus and clarify what components it wishes to pursue with the Inspectorate. The Prospectus details the type of support offered during the pre-application stage.<br><br>In line with the Prospectus, the Applicant were advised to provide a minimum of six-weeks’ notice for any meeting it wished to have with the Inspectorate and/ or any other party.<br><br>The Inspectorate advised the Applicant to establish whether key statutory consultees (such as NRW) were on-board with being able to service enhanced, including what it was the Applicant was looking for from them.<br><br>The Inspectorate advised that the advice page relevant to linear schemes will not likely be published until early 2025.<br><br>Following a query on the Policy Compliance Document, the Applicant was advised to try and establish a list of those important/ relevant policies with local authorities beyond just the NPS, to attempt to be clear on the policy positions all were working to/ from in their input. The Applicant was advised to review the HyNet Carbon Dioxide Pipeline project for an example of cross border policy application.<br><br>The Inspectorate advised on the recent publication of the good design advice page, which was published on 23 October 2024, and the need for the Applicant to clearly demonstrate how it has regard to the advice when preparing its application for development consent;<br><br>The Inspectorate advised the Applicant of the importance of clearly demonstrating the application of the mitigation hierarchy within the application documents.<br><br>The Inspectorate queried the level of engagement the Applicant had with statutory consultees about their ability to engage in the enhanced pre-application service. The Applicant confirmed that engagement on this matter had been limited and the Inspectorate advised that discussions commence as soon as possible.<br><br>The Inspectorate advised that the first meeting granted under the enhanced pre-application service starts from this |

| | |
|---|---|
| | meeting. The meetings work on a rolling year basis i.e. maximum of eight further meetings before 4 November 2025.<br><br>The Applicant was advised to discuss its environmental survey programme, methods and coverage with consultation bodies. Any gaps in survey coverage should also be identified and discussion begun with relevant consultation bodies on any proposed alternative approaches. |
| **Pwnc**<br><br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 10 Mehefin 2025**<br><br>**Meeting date: 10 June 2025** |
| Cyfarfod Diweddaru Prosiect<br><br>Project Update Meeting | **CYMRAEG:**<br><br>Rhoddodd yr ymgeisydd ddiweddariad ar y rhaglen ac, wrth ymateb i gwestiwn gan yr Arolygiaeth, cadarnhaodd y bydd National Grid Electricity Transmission (NGET) yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer is-orsaf Frankton Isaf o dan gyfundrefn gydsynio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Esboniodd yr ymgeisydd ei fod yn ymgysylltu ag NGET ar hyn o bryd ynglŷn â rhyngwyneb dylunio'r is-orsafoedd arfaethedig. Mae'n aros i NGET roi manylion pellach am yr union leoliad a graddfa amser ar gyfer is-orsaf arfaethedig NGET. Bydd y wybodaeth hon yn llywio terfynau gorchymyn y prosiect hwn ac yn diffinio'r ymgyngoreion.<br><br>Mae'r ymgeisydd yn gweithio gydag NGET ynglŷn ag ymgynghoriad wedi'i dargedu a chasglu data arolwg i lywio'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA).<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth am ddiweddariad ar y dyddiad arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r cais, ac esboniodd y byddai'n well ganddi fis penodol, a fydd yn helpu'r holl randdeiliaid i drefnu adnoddau. Bydd yr ymgeisydd yn rhoi diweddariad ar y mater hwn cyn gynted ag y gall. Cynghorodd yr Arolygiaeth ynglŷn â'r angen i ddarparu ffeil siâp sy'n cynnwys terfynau'r gorchymyn, o leiaf ddeng niwrnod gwaith cyn cyflwyno'r cais.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth, wrth gyflwyno'r dogfennau cais drafft i'w hadolygu, fel y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) a'r Adroddiad Ymgynghori, y dylai'r ymgeisydd ddarparu'r dogfennau mewn un cyflwyniad, yn hytrach na fesul cam, gan ganiatáu ar gyfer cyfnod adolygu chwe wythnos. Dylai'r dogfennau hefyd fod yn fersiynau datblygedig, yn hytrach na drafftiau cynnar, er mwyn helpu'r Arolygiaeth i roi cyngor mwy ystyrlon. Gofynnodd yr ymgeisydd a ddylai gyflwyno dogfennau technegol, fel y ddogfen cydymffurfio â pholisïau a'r traciwr hawliau tir, ynghyd â'r dogfennau cais drafft, neu a ddylai'r rhain gael eu |

| | |
|---|---|
| | cyflwyno ar wahân. Esboniodd yr Arolygiaeth y gall adolygu'r dogfennau technegol yn rhan o'r haen gwasanaeth cyn-ymgeisio manylach, ac y byddai'n ddefnyddiol petai'r rhain yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd â'r dogfennau cais drafft, er mwyn helpu i gynllunio adnoddau'n fwy effeithlon a hefyd caniatáu ar gyfer ystyried dogfennau cydgysylltiedig gyda'i gilydd, a fydd yn helpu i roi adborth manylach ar y dogfennau.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth i unrhyw dystiolaeth o gytundeb yn gysylltiedig â'r adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gael ei chynnwys yn ystod y cam adolygu dogfennau drafft. Pan ymgynghorir â chyrff statudol wrth baratoi'r HRA, cynghorodd yr Arolygiaeth fod hyn yn cael ei gynnwys yn y dogfennau HRA.<br><br>Cynghoroddd yr Arolygiaeth y bwriedir i'r ddogfen carreg filltir digonolrwydd ymgynghori (AoCM) fod yn grynodeb o sut mae'r ymgeisydd yn ystyried ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori, ac i'r Arolygiaeth asesu a yw'r ymgynghoriad wedi gwyro ymhell oddi ar y trywydd. Byddai hefyd yn tawelu meddwl yr Arolygiaeth a rhanddeiliaid eraill i gynnwys adborth gan awdurdodau lleol a chyrff statudol perthnasol ar sut maen nhw'n ystyried y cynhaliwyd yr ymgynghoriad. Gall y dull hwn helpu'r ymgeisydd i liniaru unrhyw risgiau posibl i'r cam derbyn. Gofynnodd yr ymgeisydd am enghraifft o AoCM 'arfer da'. Er na all yr Arolygiaeth ddarparu 'arfer da', gan nad yw prosiectau sydd wedi cynnal AoCM wedi cael eu penderfynu eto, awgrymodd yr Arolygiaeth y gallai'r ymgeisydd ddymuno gweld enghreifftiau diweddar, fel prosiect Piblinell Hydrogen y Gogledd-orllewin HyNet, gan fod hwnnw'n gynllun llinellol, hefyd.<br><br>Rhoddodd yr ymgeisydd drosolwg o'r ymgynghoriad statudol, a gynhaliwyd rhwng 12 Chwefror ac 16 Ebrill 2025, a chadarnhaodd ei fod wrthi'n dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod wedi cael adborth manwl a rhestrodd yr hyn y mae'n ystyried yw'r prif themâu a amlygwyd yn yr ymatebion; mae'r rhain yn cynnwys effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol, y potensial ar gyfer llifogydd, effeithiau ar asedau treftadaeth, ac effeithiau ar yr economi leol, yn benodol twristiaeth. Gofynnodd yr Arolygiaeth a yw'r ymgeisydd wedi nodi unrhyw grwpiau gweithredu yn gysylltiedig â'r cynigion. Dywedodd yr ymgeisydd fod Sir Drefaldwyn yn Erbyn Peilonau yn grŵp ymgyrchu sydd wedi'i drefnu'n dda, sy'n deall y broses Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) ac sydd wedi bod yn cael trafodaethau cynhyrchiol â'r |

| | |
|---|---|
| | ymgeisydd. Anogodd yr Arolygiaeth y dylid parhau i drafod gyda grwpiau gweithredu.<br>Mae'r ymgeisydd wedi amlygu pynciau yr hoffai eu trafod gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff statudol yn Lloegr, ynghyd â graddfeydd amser amlinellol ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Cynghorodd yr Arolygiaeth, yn unol â'r gofynion yn y prosbectws cyn-ymgeisio, y byddai angen i'r Arolygiaeth gael o leiaf chwe wythnos o rybudd cyn unrhyw gyfarfodydd aml-barti arfaethedig, ac y byddai angen i agenda fanwl gael ei chyflwyno bythefnos cyn unrhyw gyfarfod. Dylid pennu disgwyliadau clir ar gyfer canlyniadau cyfarfodydd, a dylent ganolbwyntio ar bynciau penodol. Cynghorodd yr Arolygiaeth ei bod yn bwysig i'r ymgeisydd ystyried pa rôl y mae'n disgwyl i'r Arolygiaeth ei chyflawni mewn unrhyw gyfarfodydd arfaethedig. Awgrymodd yr ymgeisydd y gallai'r Arolygiaeth gynorthwyo â gwahaniaethau mewn canllawiau, er enghraifft o ran bioamrywiaeth, a sut mae'r Arolygiaeth yn cynghori ynghylch cyfuno'r materion hyn.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth am ddiweddariad ar ymgysylltu â chyrff statudol, yn enwedig ynglŷn â chwmpas arolwg amgylcheddol anghyflawn. A yw mynediad i dir yn broblem i'r ymgeisydd? Ymatebodd yr ymgeisydd drwy ddweud nad yw wedi cwblhau arolygon yn llawn fel yr oedd wedi bwriadu'n wreiddiol, a'i fod wrthi'n trefnu casgliadau data ychwanegol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd yn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Natural England, ymhlith eraill, ynglŷn â derbynioldeb y data a gasglwyd dros ddau dymor ar wahân a'r dull gorau o gasglu data ychwanegol. Anogodd yr Arolygiaeth ddefnyddio cynlluniau tystiolaeth i gadw golwg ar gynnydd materion HRA.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a oedd y ddogfen ymagwedd ddylunio wedi bod yn destun adolygiad annibynnol gan Gomisiwn Dylunio Cymru (ar gyfer yr elfennau yng Nghymru). Ymatebodd yr ymgeisydd drwy ddweud nad oedd, ond bod hynny'n rhywbeth yr oedd yn ei ystyried. Anogodd yr Arolygiaeth adolygiad i gynorthwyo esblygiad dylunio'r prosiect.<br><br>Mae'r traciwr hawliau tir wedi cael ei ddiweddaru a chynghorodd yr Arolygiaeth ar ddefnyddio'r traciwr manwl, sydd wedi cael ei ychwanegu at y prosbectws.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a oedd yr ymgeisydd yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau i'r graddfeydd amser ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi ymgysylltu â'r ymgynghoriad, ond |

| | |
|---|---|
| | nad oedd yn ymwybodol o'r graddfeydd amser cyfredol. Er hynny, mae'r ymgeisydd yn dilyn y mater hwn yn agos.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant gave a programme update and in response to a question from the Inspectorate, confirmed that National Grid Electricity Transmission (NGET) shall be applying for planning permission for the Lower Frankton substation under the TCPA 1990 consenting regime. The applicant explained that it currently is unaware of the exact location and timescale for the proposed substation and is waiting for NGET to update further details on these matters. This information will inform this project's order limits and define the consultees.<br><br>The applicant is working with NGET regarding targeted consultation and for collecting of survey data to inform the Environmental Impact Assessment (EIA).<br><br>The Inspectorate asked for an update on the proposed date for the submission of the application, and explained that it would prefer a specific month, which will help assist all stakeholders with resourcing. The applicant will provide an update on this matter as soon as it is able to. The Inspectorate advised of the need to provide a shapefile containing the order limits, at least ten working days prior to the submission of the application.<br><br>The Inspectorate advised that when submitting draft application documents for review, such as the DCO and Consultation Report, the applicant should provide the documents in one submission, rather than staggered, allowing for a six-week period for review. Documents should also be well advanced versions, rather than early drafts, to assist the Inspectorate in providing more meaningful advice. The applicant asked if it should submit technical documents, such as the policy compliance document and land rights tracker, along with the draft application documents, or should these be submitted separately. The Inspectorate explained that, as part of the enhanced tier pre-application service, it can review the technical documents and that it would be of assistance if these were submitted at the same time as the draft application documents, to assist with more efficient resource planning and also allow for interconnected documents to be considered together, which will help to provide more detailed feedback on the documents.<br><br>The Inspectorate asked that any evidence of agreement with regard to the HRA report be included at draft documents review stage. Where there is consultation with statutory |

| | |
|---|---|
| | bodies in the preparation of the HRA, the Inspectorate advised this is included within the HRA documents.<br>The Inspectorate advised that the adequacy of consultation milestone (AoCM) document is intended to be a brief summary of how the applicant considered it has complied with the consultation requirements, and for the Inspectorate to assess whether the consultation is seriously adrift. It would also provide comfort for both the Inspectorate and other stakeholders to include feedback from local authorities and relevant statutory bodies on how they consider that the consultation has been undertaken. This approach can help the applicant mitigate any potential risks to the acceptance stage. The applicant asked for an example of a 'good practice' AoCM. Whilst the Inspectorate cannot provide 'good practice', as projects that have undertaken AoCM have not yet been determined, the Inspectorate suggested the applicant may wish to view recent examples such as the Hynet North West Hydrogen Pipeline project, with that also being a linear scheme.<br><br>The applicant gave an overview of the statutory consultation, which was conducted between 12 February and 16 April 2025 and confirmed that it was in the process of analysing the responses received. The applicant stated that it has received detailed feedback and listed what it considers to be the major themes identified in the responses; these include landscape and visual impacts, the potential for flooding, impacts on heritage assets, and impacts on the local economy, specifically tourism. The Inspectorate asked if the applicant has identified any action groups in relation to the proposals. The applicant stated that Montgomeryshire Against Pylons is a well organised campaign group, that understands the NSIP process and has been having productive discussions with the applicant. The Inspectorate encouraged ongoing dialogue with action groups.<br><br>The applicant has identified topics which they wish to discuss with a number of stakeholders, including statutory bodies in England, along with outline timescales for these meetings. The Inspectorate advised that, as per the requirements in the pre-application prospectus, the Inspectorate would require at least six weeks' notice ahead of any proposed multi-party meetings (MPM), with a detailed agenda submitted two weeks prior to any meeting. Meetings should have clear expectations of the outcomes, having focus on specific topics. The Inspectorate advised that it was important for the applicant to consider what role it expects the Inspectorate to have in any proposed meetings. The applicant stated that one example where the Inspectorate could assist concerns differences in guidance, for example with regard to |

| | |
|---|---|
| | biodiversity, and how the Inspectorate advises combining these matters.<br>The Inspectorate asked how engagement is progressing with statutory bodies, especially in relation to incomplete environmental survey coverage. Is land access an issue for the applicant? The applicant responded that it has not fully completed surveys as it had originally planned and was in the process of programming further collection of data. The applicant confirmed they will consult with NRW and Natural England, amongst others, with regard to the acceptability of the data collected over two separate seasons and the best approach for collecting further data. The Inspectorate encouraged the use of evidence plans to keep track of progress of HRA matters.<br><br>The Inspectorate asked if the design approach document, had been subject of an independent review by the Design Commission for Wales (for the elements in Wales). The applicant replied that it had not, but that it is something they are considering and recognise the benefit of independent design review. The Inspectorate encouraged a review to assist the design evolution of the project.<br><br>The land rights tracker has been updated and the Inspectorate advised on the use of the detailed tracker, which has been added to the prospectus.<br><br>The Inspectorate asked if the applicant was aware of any updates on timescales for the proposed new National Park. The applicant confirmed that it had engaged in the consultation, but that it was not aware of current timescales. Nevertheless, the applicant is closely following this matter. |
| Comments on the proposed approach the design approach document (DAD)<br><br>Sylwadau ar yr ymagwedd arfaethedig at y Ddogfen Ymagwedd Ddylunio | **CYMRAEG:**<br><br>Mae'n ymddangos bod yr ymgeisydd yn rhoi ystyriaeth gynnar i faterion dylunio. Croesewir hyn ac mae'n cyd-fynd â'r neges allweddol, sef peidio â cheisio 'ôl-beiriannu' neu ôl-osod y Ddogfen Ymagwedd Ddylunio i weddu i gynnig.<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori'r ymgeisydd i adolygu ein cyngor Dylunio a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan ymateb yn arbennig i bwyntiau Atodiad A yn ei ddatblygiad – [Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol: Cyngor ar Ddylunio Da - GOV.UK](), yn ogystal â'r cyngor ar brosiectau llinol wrth ffurfio dyluniad cyffredinol y cynllun.<br><br>Fe allai'r ymgeisydd ddymuno adolygu rhywfaint o adborth a51 cynhwysfawr cynnar a roddwyd i brosiectau Outer Dousing a Byers Gill a oedd yn rhan o'r prosiectau |

| | |
|---|---|
| | 'mabwysiadwyr cynnar' wrth baratoi'r Ddogfen Ymagwedd Ddylunio.<br><br>Fel y nodwyd uchod, dylai'r ymgeisydd ystyried p'un a fyddai'n briodol cael mewnbwn adolygu dyluniad gan gorff annibynnol a nodi 'hyrwyddwr' ar lefel uwch. Yn nodweddiadol, byddai'r Arolygiaeth yn cynghori y byddai'r ddau yn ychwanegu gwerth ar gyfer cynllun o'r fath.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant appears to be taking early consideration of design matters, which is welcomed and accords with the key message of not seeking to 'backward engineer' or retro-fit the DAD to fit a proposal.<br><br>The Inspectorate advise the applicant to review our recently published Design advice, in particular responding to the points of Annex A in its development - [Nationally Significant Infrastructure Projects: Advice on Good Design - GOV.UK](), as well as the linear project advice in shaping the overall design of the scheme.<br><br>The applicant may wish to review some early comprehensive s51 feedback provided to the Outer Dousing and Byers Gill projects that were part of the 'early adopters' projects in the preparation of the DAD.<br><br>As indicated above, the applicant should consider whether design review input from an independent body and a 'champion' be identified at a senior level would be appropriate. The Inspectorate would typically advise both would add value for such a scheme. |
| Sylwadau ar y ddogfen cydymffurfio polisi arfaethedig (PCD)<br><br>Comments on the proposed policy compliance document (PCD) | **CYMRAEG:**<br><br>Mae'r Arolygiaeth yn cynghori y dylai'r ymgeisydd lwyr ddeall ei hierarchaeth ddeddfwriaeth/polisïau ganfyddedig wrth ddatblygu Dogfen Cydymffurfio â Pholisïau.<br><br>Mae'r rhestr fer a ddarparwyd yn ymddangos yn ddull rhesymegol ar y cam hwn. Os yw'r cynnig yn effeithio ar dirweddau a warchodir, dylid ystyried unrhyw gynlluniau / polisïau rheoli cysylltiedig, hefyd.<br><br>Dylai'r ymgeisydd sicrhau bod polisïau yng nghynllun datblygu lleol Powys, a chynllun lleol Swydd Amwythig, gan gynnwys unrhyw adolygiadau sy'n dod i'r amlwg, yn derbyn sylw'n llawn yn y Ddogfen Cydymffurfio â Pholisïau; |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Arolygiaeth yn cynghori'r ymgeisydd i gadw golwg ar ddatblygiad y Bil Cynllunio a Seilwaith a'r ymgynghoriad cysylltiedig a ddisgwylir ynglŷn â newidiadau deddfwriaethol, arweiniad a gweithredol posibl yn y misoedd i ddod.<br><br>Dylai'r ymgeisydd ystyried unrhyw Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSau) sy'n dod i'r amlwg/drafft sydd ar gael i'r cyhoedd.<br><br>Dylai'r ymgeisydd geisio cytuno ar unrhyw restr o bolisïau pwysig a pherthnasol (gan gynnwys polisïau lleol allweddol) gyda chyrff perthnasol a chofnodi'r cytundeb hwnnw, lle bo'n bosibl. Trwy sefydlu 'sylfaen' polisïau, fel y byddai disgwyl i ymgeisydd ei wneud gyda methodolegau sylfaenol, fe ddylai hyn osgoi anghytundeb yn y maes hwn wrth i'r prosiect esblygu, cyn ac os caiff ei dderbyn i'w archwilio. Fodd bynnag, derbynnir y gellir diweddaru a/neu ddisodli polisïau, ac felly y dylid cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ddelio â materion o'r fath.<br><br>Dylai'r ymgeisydd nodi y gellir gofyn i Ddogfennau Cydymffurfio â Pholisïau gael eu diweddaru o dro i dro i ymateb i ymholiadau a godwyd yn ystod archwiliad, yn nodweddiadol trwy gyfeirio ychwanegol i lywio'r broses archwilio, ond weithiau hefyd i ddeunydd newydd sy'n cael ei gyflwyno.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The Inspectorate advises that the applicant is clear on their perceived legislation/policy hierarchy in the development of a PCD.<br><br>The brief list provided appears a logical approach at this stage. If the proposal affects protected landscapes any associated management plans / policies should also be considered.<br><br>The applicant should ensure that policies in the Powys local development plan, and Shropshire local plan, including any emerging reviews, are fully addressed in the PCD;<br><br>The Inspectorate advises the applicant to keep informed on the development of the Planning and Infrastructure Bill and anticipated associated consultation regarding potential legislative, guidance and operational changes in the coming months.<br><br>The applicant should consider any emerging/draft NPSs in the public domain. |

| | |
|---|---|
| | The applicant should seek to agree any list of important and relevant polices (including key local policies) with relevant bodies and record that agreement where possible. By establishing a policy 'base', as an applicant would be expected to with baseline methodologies, this should avoid disagreement in this area as the project evolves, prior to and if accepted for examination. It is though accepted that policies can be updated and or replaced, as such some flexibility should remain to deal with such matters.<br><br>The applicant should note that PCDs can be requested to be updated periodically in response to queries raised during examination, typically via additional signposting to inform the examination process, but occasionally also to new material being submitted. |
| **Pwnc**<br><br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 8 Medi 2025**<br><br>**Meeting date: 8 September 2025** |
| Diweddariad ar y Prosiect<br><br>Project Update | **CYMRAEG:**<br><br>Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd yn gwneud newidiadau i'r cynllun ar ôl ystyried ymatebion a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Bwriedir cynnal ymgynghoriad arall wedi'i dargedu cyn cyflwyno'r cais er mwyn cyfleu'r newidiadau hyn i randdeiliaid.<br><br>Adroddodd yr ymgeisydd fod yr ymgynghoriad statudol ar Barc Ynni Llyn Lort wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2025 ac y disgwylir cyflwyno cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru cyn diwedd 2025.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n fuddiol i'r holl randdeiliaid geisio osgoi digwyddiadau archwilio sy'n gorgyffwrdd ar gyfer y ddau brosiect, yn enwedig o ran adnoddau ar gyfer cyrff statudol a'r cyhoedd.<br><br>Rhoddodd yr ymgeisydd wybod am ei raglen ddiwygiedig newydd, ac y bwriedir cyflwyno'r cais ym mis Hydref 2026 bellach. Cynghorodd yr Arolygiaeth mai ei hadolygiad drafft o dracwyr materion, a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd 2025, fyddai'r adolygiad mwy cynhwysfawr o'r dogfennau; byddai'r adolygiad terfynol o'r tracwyr, a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2026, yn asesu sut mae'r ymgeisydd wedi ystyried y cyngor a roddwyd yn flaenorol.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a oedd yr ymgeisydd yn parhau i ystyried adolygiad dylunio annibynnol gan Gomisiwn Dylunio Cymru (ar gyfer yr elfennau yng Nghymru), yn unol â'r dudalen gyngor ar ddylunio da. Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn annhebygol o wneud hynny, gan fod y dyluniad yn |

| | |
|---|---|
| | cyd-fynd â safon y diwydiant ac felly nad oes llawer o opsiynau i'w newid. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i sicrhau bod ei ddull yn cael ei esbonio'n glir yn y ddogfen ymagwedd ddylunio.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant confirmed that it shall be making changes to the proposed scheme following consideration of stakeholder responses made during statutory consultation. Further targeted consultation is proposed in advance of submission of the application to communicate these changes to stakeholders.<br><br>The applicant reported that the Llyn Lort Energy Park statutory consultation was completed in July 2025 and that the submission of the Development of National Significance application to the Welsh Government is due before the end of 2025.<br><br>The Inspectorate advised that it was beneficial for all stakeholders to seek to avoid having overlapping examination events for both projects, especially with regard to resourcing for statutory bodies and the public.<br><br>The applicant advised of its new revised programme, with the submission of the application now planned for October 2026. The Inspectorate advised that its draft review of issues trackers, scheduled for November 2025, would be the more comprehensive review of the documents; the final review of trackers, scheduled for May 2026, would be to assess how the applicant has had regard to the advice given previously.<br><br>The Inspectorate asked if the applicant was still considering an independent design review by the Design Commission for Wales (for the elements in Wales), in line with the good design advice page. The applicant stated that it is unlikely to do so, as the design is to industry standard and therefore has limited options for changes to the design. The Inspectorate advised the applicant to ensure that its approach is clearly explained in the design approach document (DAD). |
| Diweddariad ar yr Ymgynghoriad<br><br>Consultation Update | **CYMRAEG:**<br><br>Rhoddodd yr ymgeisydd drosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys crynodeb o'r themâu allweddol. Mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal ymgynghoriad arall wedi'i dargedu mewn chwe lleoliad ac mae'n ymgysylltu â Chyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Amwythig ar hyn o bryd i gytuno ar ei ddull, yn seiliedig ar yr egwyddorion a |

| | |
|---|---|
| | amlinellir yn y Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC). Disgwylir i'r ymgynghoriad hwn wedi'i dargedu ddechrau yn gynnar ym mis Tachwedd 2025.<br><br>Cadarnhaodd yr ymgeisydd na fydd y garreg filltir digonolrwydd ymgynghori (AoCM) yn cael ei chwblhau'n derfynol hyd nes y bydd yr holl ymarferion ymgynghori wedi'u cwblhau, yn unol â chyngor yr Arolygiaeth ar y mater hwn. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ymgeisydd gofnodi ei ymagwedd at ymgynghori yn yr AoCM ac yn yr adroddiad ymgynghori, gan esbonio'n glir pam yr ystyriwyd bod ymgynghoriad wedi'i dargedu yn fwy priodol nag ymgynghoriad llawn. Byddai tystiolaeth o gytundeb yr awdurdodau lleol â'r dull yn ddefnyddiol. Dylai'r AoCM hefyd gynnwys unrhyw adborth arall perthnasol gan yr awdurdod lleol.<br><br>Atgoffodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd o'r disgwyliadau a nodwyd yn yr arweiniad cyn-ymgeisio, sy'n datgan y dylai'r AoCM fod yn ddatganiad byr, ac y dylai'r adroddiad ymgynghori ddarparu'r wybodaeth fanwl am yr ymgynghoriad.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant gave an overview of the statutory consultation responses, including a summary of key themes.<br>The applicant intends to undertake further targeted consultation in six locations and is currently engaging with Powys County Council and Shropshire Council to agree its approach, based on principles set out in the SoCC. It is expected that this targeted consultation will commence in early November 2025.<br><br>The applicant confirmed that the AoCM will not be finalised until all consultation has been completed, in line with advice from the Inspectorate on this issue. The Inspectorate advised that the applicant should document its approach to consultation in both the AoCM and in the consultation report, clearly explaining why targeted consultation was considered more appropriate to a full round of consultation. Evidence of the local authorities' agreement with the approach would be helpful. The AoCM should also include any other relevant feedback from the local authority.<br><br>The Inspectorate reminded the applicant of the expectations set out in the pre-application guidance, which states that the AoCM should be a short statement, with the consultation report providing the in-depth information on consultation. |

| | |
|---|---|
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid<br><br>Stakeholder Engagement | **CYMRAEG:**<br><br>Ar hyn o bryd, mae aliniad presennol llwybr Fyrnwy i Frankton yn mynd o boptu i ran ddeheuol ffin y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Mae'r ymgeisydd wedi cyfarfod â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i drafod rhyngweithiad cynllun arfaethedig Fyrnwy i Frankton a'r asesiad arfaethedig o geomorffoleg Afon Fyrnwy.<br><br>Bydd CNC yn cynnal ymgynghoriad arall ar ddiwygiadau i ffin y parc cenedlaethol arfaethedig rhwng 15 Medi ac 8 Rhagfyr 2025. Mae'r ymgeisydd yn deall nad yw terfynau'r gorchymyn ar gyfer prosiect Fyrnwy i Frankton yn dod o fewn ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol newydd mwyach. Mae cyfarfod arall gydag arbenigwyr technegol CNC ar geomorffoleg wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2025.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth, hyd yn oed os nad yw'r datblygiad arfaethedig o fewn ffin y Parc Cenedlaethol newydd mwyach, a yw'n ystyried tanddaearu'r rhan o'r llwybr sydd agosaf i ffin y Parc Cenedlaethol arfaethedig. Cadarnhaodd yr ymgeisydd nad yw'n ystyried bod angen tanddaearu'r llwybr gan fod ffin y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig gryn bellter oddi wrth ffin y cynllun a'i fod yn debygol o fod y tu allan i leoliad y Parc Cenedlaethol newydd.<br><br>Disgwylir ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chynhyrchu datganiadau tir cyffredin a phynciau, fel arolygon tir, i helpu i lywio'r datganiad amgylcheddol.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ymgeisydd gofnodi cynnydd ar y materion hynny y cytunwyd arnynt a'r rhai yr ystyrir eu bod yn brif feysydd anghytundeb o hyd cyn cyflwyno'r cais.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>At present, the proposed Vyrnwy to Frankton route alignment straddles the southern extent of the proposed new National Park boundary. The applicant has met with Natural Resources Wales (NRW) to discuss the interaction of the proposed Vyrnwy to Frankton scheme and the proposed assessment of River Vyrnwy's geomorphology.<br><br>NRW will be conducting further consultation on amendments to the boundary of the proposed national park between 15 September and 8 December 2025. The applicant understands that the order limits for the Vyrnwy to Frankton project no longer fall within the proposed boundary of the |

| | |
|---|---|
| | new National Park. A further meeting with technical experts at NRW on geomorphology is planned for September 2025.<br><br>The Inspectorate asked that even if the proposed development is no longer within the boundary the new National Park, if it is considering the undergrounding the section of the route closest to the proposed National Park boundary. The applicant confirmed that it does not consider it necessary to underground the route as the new proposed National Park boundary is a considerable distance from the scheme's boundary and is likely to sit outside the settling of the new Nation Park.<br><br>Further stakeholder engagement is anticipated on matters that concern the production of statements of common ground and topics, such as land surveys, to help inform the environmental statement.<br><br>The Inspectorate advised that the applicant should document progress on those matters that are agreed and those that are still considered principal areas of disagreement ahead of the application being submitting. |
| Cyfarfodydd Trawsffiniol<br><br>Cross boarder Meetings | **CYMRAEG:**<br><br>Mae'r ymgeisydd eisiau i'r Arolygiaeth gymryd rhan mewn sawl cyfarfod amlbarti â rhanddeiliaid allweddol ar faterion trawsffiniol.<br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y byddai'n gallu helpu i drefnu cyfarfodydd trawsffiniol a chymryd rhan ynddynt, ond y byddai angen i'r ymgeisydd ddangos diben clir y cyfarfod(ydd), gan gynnwys canlyniadau a ddymunir, yn ogystal ag esbonio'n glir rôl arfaethedig yr Arolygiaeth yn y cyfarfod(ydd). Yn ogystal, atgoffodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd o'r cyfnodau rhybudd ar gyfer cyfarfodydd o'r fath, a amlinellir yn y prosbectws cyn-ymgeisio, ac awgrymodd y dylid eu cynnal yn raddol, i hwyluso adnoddau rhanddeiliaid.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant seeks the Inspectorate's participation in several multiparty meetings with key stakeholders on cross border issues.<br>The Inspectorate advised that it would be able to assist with arranging cross border meetings and participate in such meetings, but that it would be necessary for the applicant to demonstrate the clear purpose of the meeting(s), including desired outcomes, as well as clearly explaining the Inspectorate's proposed role in the meeting(s). The Inspectorate also reminded the applicant of the notice |

| | |
|---|---|
| | periods for such meetings, which is set out in the pre-application prospectus, and suggested that such meetings were staggered, to assist with stakeholder resourcing. |
| Land Update | **CYMRAEG:**<br><br>Rhoddodd yr ymgeisydd drosolwg o'r gwaith parhaus yn ymwneud â mynediad i dir i gasglu data arolwg a dywedodd ei fod yn ymgysylltu â thirfeddianwyr i drafod tir sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad arfaethedig.<br>Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i sicrhau bod y fersiwn fanwl o'i thraciwr hawliau tir, sydd ar gael yn y Prosbectws, yn cael ei defnyddio ar gyfer y datblygiad arfaethedig.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant gave an overview of the ongoing work in relation to access to land to undertake survey data collection and is engaging with landowners in relation to negotiations for land required for the proposed development.<br>The Inspectorate advised the applicant to ensure that the detailed version of its land rights tracker, which is available in the Prospectus, is used for the proposed development. |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 7 Ionawr 2026**<br>**Meeting date: 7 January 2026** |
| Diweddariad ar y Prosiect<br><br>Project Update | **CYMRAEG:**<br><br>Cadarnhaodd yr ymgeisydd y disgwylir cyflwyno'r cais ym mis Hydref 2026.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth ynghylch statws dogfen raglen yr ymgeisydd, a chadarnhawyd y byddai fersiwn wedi'i diweddaru'n cael ei chyhoeddi'n fuan.<br><br>Cadarnhaodd yr Arolygiaeth hefyd fod Datganiadau Polisi Cenedlaethol diwygiedig EN-1, EN-3 ac EN-5 wedi dod i rym ar 6 Ionawr 2026.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant confirmed that the anticipated submission date for the application is October 2026.<br><br>The Inspectorate queried the status of the applicant's programme document, and it was confirmed that an updated version would be published shortly. |

| | |
|---|---|
| | The Inspectorate also confirmed that updated National Policy Statements EN-1, EN-3 and EN-5 came into force on 6 January 2026. |
| Diweddariad ar yr Ymgynghoriad<br><br>Consultation Update | **CYMRAEG:**<br><br>Mae'r ymgeisydd yn bwriadu cynnal ymgynghoriad statudol arall wedi'i dargedu yn gynnar yn 2026 ynglŷn â nifer o newidiadau ar hyd llwybr y prosiect arfaethedig. Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r ymgeisydd a oedd y newidiadau yn y diweddariad ar yr ymgynghoriad yn deillio o adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol neu o addasiadau i'r prosiect ei hun. Cadarnhaodd yr ymgeisydd eu bod yn gyfuniad o'r ddau, a chynghorodd yr Arolygiaeth y dylai sicrhau bod yr Adroddiad Ymgynghori'n esbonio'n glir sut yr ystyriwyd yr adborth.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth hefyd b'un a fyddai'r newid a gadarnhawyd yn ddiweddar i derfynau'r gorchymyn yn ymwneud â Pharc Cenedlaethol Glyndŵr, sydd newydd ei ddynodi, yn arwain at unrhyw effaith weledol ar y parc cenedlaethol o hyd. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai effeithiau cyfyngedig ar weledadd.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant plans to undertake further targeted statutory consultation in early 2026 on a number of changes along the route of the proposed project. The Inspectorate asked the applicant whether the changes in the consultation update resulted from feedback received during the statutory consultation or from modifications to the project itself. The applicant confirmed that it was a combination of both, and the Inspectorate advised them to ensure that the Consultation Report clearly explains how the feedback was considered.<br><br>The Inspectorate also queried whether the recently confirmed change to the order limits relating to the newly designated Glyndŵr National Park would still result in any visual impact on the national park. The applicant confirmed that there would be limited visibility impacts. |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid<br><br>Stakeholder Engagement | **CYMRAEG:**<br><br>Rhannodd yr ymgeisydd ddiweddariad ar ei sefyllfa mewn perthynas â chyrff ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan nodi bod rhai problemau'n parhau ynglŷn ag ymgysylltu cyfyngedig, yn enwedig gyda'r awdurdodau lleol perthnasol. Dywedodd yr Arolygiaeth y gallai'r cyfathrebu cyfyngedig â'r awdurdodau lleol perthnasol greu pwysau petai'n parhau yn ystod y cam |

| | |
|---|---|
| | archwilio. Felly, argymhellodd yr Arolygiaeth y dylid cysylltu â'r awdurdodau i drafod yr hyn sy'n ofynnol ganddynt a chanolbwyntio ar gytuno ar faterion egwyddor cyn symud ymlaen i'r camau nesaf.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r ymgeisydd, pan ymgysylltwyd yn fwy rheolaidd â rhanddeiliaid eraill, beth oedd natur yr ymgysylltiad, megis rhoi diweddariadau cyffredinol ar y prosiect yn unig, neu drafodaethau manylach fel rhannu cynigion ar gyfer arolygon, neu rannu copïau o ddogfennau drafft. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bu'n darparu diweddariadau ar y prosiect ac yn rhoi gwybodaeth i randdeiliaid am sut mae'r prosiect yn datblygu.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth hefyd b'un a oes gan Gynghorau Powys a Swydd Amwythig ofynion gwahanol ar gyfer arolygon amgylcheddol – er enghraifft, ffosydd profi archaeolegol – a sut byddai gwahaniaethau o'r fath yn derbyn sylw yn y Datganiad Amgylcheddol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'n ystyried y pwynt hwn. Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylid rhoi gwybod i'r holl bartïon am unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd ac y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r awdurdodau lleol perthnasol am fesurau lliniaru arfaethedig yr ymgeisydd.<br><br>Dywedodd yr ymgeisydd efallai y bydd yn gofyn i'r Arolygiaeth gymryd rhan mewn cyfarfodydd aml-barti, er enghraifft gyda Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn ag ymagweddau at enillion net i fioamrywiaeth / budd net i fioamrywiaeth.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The applicant shared an update on its position with stakeholder engagement bodies, noting some issues remained concerning limited engagement, particularly with the relevant local authorities. The Inspectorate advised that if the limited communication with the relevant local authorities continues into the examination stage, it could create pressure. The Inspectorate therefore recommended discussing with the authorities what is required from them and focusing on agreeing matters of principle before moving into the next stages.<br><br>The Inspectorate asked the applicant whether where engagement had been held more regularly with other stakeholders, what the nature of the engagement had been., such as whether this was just providing general project updates, or more detailed discussions such as sharing proposals for surveys, or sharing copies of draft documents. |

| | |
|---|---|
| | The applicant confirmed that it has been providing project updates and keeping stakeholders informed about how the project is developing.<br><br>The Inspectorate also asked whether Powys and Shropshire Councils have differing requirements for environmental surveys - for example, archaeological trial trenching - and how such differences would be addressed in the Environmental Statement. The applicant confirmed it would take this point away for consideration. The Inspectorate advised that all parties should be made aware of any gaps in the information collected and that the relevant local authorities should be kept updated on the applicant's proposed mitigation measures.<br><br>The applicant stated that it may seek the Inspectorate's involvement in multi-party meetings, for example with Natural England and Natural Resources Wales (NRW) regarding approaches to biodiversity net gain / net benefit for biodiversity. |
| Diweddariad ar Dir<br><br>Land Update | **CYMRAEG:**<br><br>Holodd yr Arolygiaeth ynghylch yr amseru ar gyfer cwblhau arolygon Asesu Effeithiau Amgylcheddol yr ymgeisydd a ph'un a yw'r rhaglen yn caniatáu digon o amser i gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol a chynnal yr asesiadau perthnasol cyn cyflwyno cais. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn disgwyl cwblhau'r holl arolygon ac asesiadau sylfaenol mewn pryd ar gyfer dyddiad cyflwyno arfaethedig y cais.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth hefyd b'un a fyddai angen darpariaethau amddiffynnol ar gyfer ymgymerwyr statudol allweddol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai eu hangen, ond dywedodd nad oedd trafodaethau ar y darpariaethau hynny wedi dechrau eto.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The Inspectorate asked about the timing for completing the applicant's EIA surveys and whether the programme allows sufficient time to gather all necessary information and carry out the relevant assessments prior to submission of an application. The applicant confirmed that it expects to complete all surveys and baseline assessments in time for the planned submission.<br><br>The Inspectorate also queried whether protective provisions would be required for key statutory undertakers. The |

| | |
|---|---|
| | applicant confirmed that they would be but noted that discussions on those provisions had not yet begun. |
| Cyfarfodydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn y Dyfodol<br><br>Future PINS Meetings | **CYMRAEG:**<br><br>Dywedodd yr Arolygiaeth nad oedd yr ymgeisydd wedi darparu diweddariad ar y rhaglen na thraciwr materion i lywio'r cyfarfod ac y dylid cyflenwi'r dogfennau hyn o flaen llaw ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol i alluogi'r Arolygiaeth i roi cyngor. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn bwriadu darparu cyfres o ddogfennau i'w hadolygu yn ystod y cam drafft.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth hefyd y byddai'n fuddiol i'r ymgeisydd ddod ag arbenigwr amgylcheddol i gyfarfodydd yn y dyfodol i lywio trafodaethau ymhellach ynglŷn ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnydd gwaith asesu.<br><br>Dywedodd yr Arolygiaeth mai un o'r blaenoriaethau allweddol yw deall pa faterion sy'n debygol o godi a symud ymlaen i'r archwiliad, fel y gall gynnig cymaint o arweiniad â phosibl a dangos enghreifftiau o sut mae materion o'r fath yn derbyn sylw mewn archwiliadau eraill.<br><br>Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn disgwyl cyfarfodydd ychwanegol â'r Arolygiaeth ym mis Mawrth, mis Mehefin a mis Medi 2026.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The Inspectorate noted that the applicant had not provided a programme update or issues tracker to inform the meeting and that these documents should be supplied in advance for future meetings to enable the Inspectorate to provide advice. The applicant confirmed that it intends to provide a series of documents for review at the draft stage.<br><br>The Inspectorate also advised that it would be beneficial for the applicant to bring an environmental specialist to future meetings to further inform discussions around stakeholder engagement and progress with assessment work.<br><br>The Inspectorate noted that a key priority is understanding which issues are likely to arise and which may progress to examination, so that it can offer as much guidance and draw on examples from other examinations as to how such matters are being dealt with. |

| | |
|---|---|
| | The applicant confirmed that it anticipates further meetings with the Inspectorate in March, June and September 2026. |
| **Pwnc**<br>**Topic** | **Dyddiad cyfarfod: 8 Ebrill 2026**<br>**Meeting date: 8 April 2026** |
| Diweddariad ar y Prosiect<br>Project Update | **CYMRAEG:**<br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r ymgeisydd roi gwybod iddi am unrhyw oedi posibl er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y prosiect. Y dyddiad cyflwyno disgwyliedig yw mis Hydref 2026 o hyd.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd y byddai angen digon o amser arno i ymgysylltu'n ddigonol â phartïon statudol ynglŷn â methodoleg a chanlyniadau arolygon ecolegol ac adaregol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'n cynyddu ymgysylltiad yn ystod y mis nesaf a'i fod yn rhesymol hyderus ei fod yn rhoi sylw i bopeth.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r ymgeisydd a oedd wedi ystyried y newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio a Seilwaith 2025. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn ymwybodol o'r newid, ond ei fod yn aros am arweiniad wedi'i ddiweddaru gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i lwyr ddeall y goblygiadau i'r cais hwn. Yn y cyfamser, bydd yn parhau ar sail y trefniadau deddfwriaethol presennol.<br><br>Dywedodd yr Arolygiaeth ei bod yn gweithio'n agos gydag MHCLG ar weithredu Deddf 2025 ac y bydd yn falch o roi cyngor penodol i brosiect i'r ymgeisydd pan fydd yr arweiniad wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi (disgwylir ar hyn o bryd iddo gael ei gyhoeddi yn hwyr yn y Gwanwyn/yr Haf 2026).<br><br>**ENGLISH:**<br>The Inspectorate advised that the applicant should inform it of any potential delays to ensure the project is resourced |

| | |
|---|---|
| | correctly. October 2026 remains the intended submission date.<br><br>The Inspectorate advised the applicant that it would need enough time to engage sufficiently with statutory parties regarding ecology and ornithology survey methodology and results. The applicant confirmed it was increasing engagement in the next month and was reasonably confident that it is covering all bases.<br><br>The Inspectorate asked the applicant if it has taken into consideration the changes arising from the Planning and Infrastructure Act 2025. The applicant confirmed that it is aware of the transition but awaiting publication of updated Guidance from MHCLG to fully understand the implications for this application. Meanwhile, it will continue to proceed on the basis of the current legislative arrangements.<br><br>The Inspectorate advised that it is working closely with MHCLG on the implementation of the 2025 Act and will be happy to provide project-specific advice to the applicant once the updated guidance is issued (currently expected to be late Spring/Summer 2026). |
| Diweddariad ar yr Ymgynghoriad<br><br>Consultation Update | **CYMRAEG:**<br>Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr ymgeisydd y dylai barhau i gysylltu â chymunedau lleol hyd yn oed ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn ystyried cyfathrebu parhaus, yn enwedig â chymunedau lleol.<br><br>Gofynnodd yr ymgeisydd a oedd angen drafft cynnar o'r Garreg Filltir Digonolrwydd Ymgynghori. Cynghorodd yr Arolygiaeth nad oedd angen cyflwyno copi cynnar o'r ddogfen.<br><br>**ENGLISH:**<br>The Inspectorate advised the applicant that even when the consultation closes, it should still be communicating with local communities. The applicant confirmed it is looking at ongoing communication, particularly with local communities.<br><br>The applicant asked whether an early draft of the Adequacy of Consultation Milestone was required. The Inspectorate advised there was no need to submit an early copy of the document. |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Technegol | **CYMRAEG:**<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a oes unrhyw feysydd sy'n achosi pryder o ran archaeoleg gladdedig. Cadarnhaodd yr |

| | |
|---|---|
| Technical Stakeholder Engagement | ymgeisydd fod y prif feysydd pryder yn ymwneud â'r posibilrwydd o asedau archaeolegol sy'n anhysbys ar hyn o bryd, ac y bydd arolygon (geoffisegol a delweddau manwl LiDAR ac o'r awyr) yn egluro hyn ymhellach. Lle bo'n bosibl, byddai microleoli'n cael ei ddefnyddio i osgoi effeithiau; lle na ellir cyflawni hyn, byddai trafodaethau manwl yn cael eu cynnal â'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol i sicrhau bod unrhyw olion yn cael eu gwarchod yn briodol trwy gofnod.<br><br>Gofynnodd yr Arolygiaeth a allai microleoli gael ei ddefnyddio hefyd i fynd i'r afael ag effeithiau ar asedau twristiaeth, fel safleoedd gwersylla. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai'r dull hwn yn sicr yn berthnasol yn yr amgylchiadau hynny.<br><br>Nododd yr Arolygiaeth bwysigrwydd parhau i ymgysylltu â busnesau llai o faint ynglŷn â gofynion amddiffynnol neu gytundebau masnachol, gan gydnabod bod y materion hyn yn gallu cymryd llawer o amser yn ystod y broses archwilio os na sicrhawyd cytundeb.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth a oes unrhyw faterion mynediad neu amseru yn gysylltiedig ag arolygon archaeolegol ymwthiol os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn amdanynt. Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod trwyddedau gwirfoddol eisoes ar waith ar gyfer arolygon anymwthiol a dywedodd ei fod yn disgwyl y byddai'r perthnasoedd cadarnhaol presennol â thirfeddianwyr yn golygu y gellir cynnal arolygon ymwthiol os bydd angen.<br><br>Diolchodd yr ymgeisydd i'r Arolygiaeth am gynnig helpu i ymgysylltu â Chyngor Swydd Amwythig, gan nodi bod ganddo nifer o awgrymiadau ac y bydd yn rhannu'r rhain cyn hir.<br><br>Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn ceisio datrys materion sy'n weddill cyn cynnwys yr Arolygiaeth mewn unrhyw gyfarfodydd aml-barti ac y bydd yn rhoi diweddariadau wrth i'r materion ddatblygu.<br><br>**ENGLISH:**<br><br>The Inspectorate asked whether there are any specific locations of concern in relation to buried archaeology. The applicant confirmed that the main areas of concern relate to the potential for currently unknown archaeological assets, and that surveys (geophysical and detailed LiDAR and aerial imagery) will provide greater clarity on this. Where possible, micrositing would be used to avoid impacts; where this is not achievable, detailed discussions would be held with the relevant local planning authority to ensure any remains are appropriately preserved by record. |

| | |
|---|---|
| | The Inspectorate asked whether micrositing could also be applied to address impacts on tourism assets, such as campsites. The applicant confirmed that this approach would very much apply in those circumstances.<br><br>The Inspectorate noted the importance of continuing engagement with smaller businesses regarding protective requirements or commercial agreements, acknowledging that these matters can be time-consuming during the examination process if agreement has not been secured.<br><br>The Inspectorate queried whether there may be any access or timing issues for intrusive archaeological surveys should these be requested by the local planning authority. The applicant confirmed that voluntary licences are already in place for non-intrusive surveys and expressed the expectation that existing positive landowner relationships would allow intrusive surveys to be undertaken if required.<br><br>The applicant expressed gratitude for the Inspectorate's offer of assistance with engagement with Shropshire Council, noting that it has a number of suggestions and will share these shortly.<br><br>The applicant advised that it is seeking to resolve outstanding issues before involving the Inspectorate in any multi-party meetings and will provide updates as matters progress. |
| Diweddariad ar Dir<br>Land Update | **CYMRAEG:**<br>Ceisiodd yr ymgeisydd gyngor ar sut i gwblhau'r Traciwr Hawliau Tir. Anogodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i ysgrifennu, ac y gall ddarparu hynny'n ysgrifenedig trwy gyngor a51.<br><br>Holodd yr Arolygiaeth ynglŷn â bodolaeth unrhyw Dir Categori Arbennig. Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod Tir Categori Arbennig yn cael ei adolygu'n barhaus drwy gydol y prosiect. Mae gwaith yn mynd rhagddo wrth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad barhau i gael eu hasesu, ond mae'r ymgeisydd o'r farn ei bod yn deg dweud ei fod yn hyderus ar hyn o bryd nad yw'r prosiect yn effeithio ar unrhyw Dir Categori Arbennig. Mynegwyd y casgliad hwn gyda gofal priodol, gan gydnabod bod y farn honno'n gynhenid sensitif i risg.<br><br>**ENGLISH:**<br>The applicant sought advice on how to complete the Land Rights Tracker. The Inspectorate encouraged the applicant to write in, and it can provide that in writing via s51 advice. |

| | |
|---|---|
| | The Inspectorate queried the existence of any Special Category Land. The applicant confirmed that Special Category Land is being kept under review throughout the course of the project. Work is ongoing as consultation responses continue to be assessed, but the applicant considers it a fair statement to say that it is currently confident no Special Category Land is affected. This conclusion was expressed with appropriate caution, recognising that it is inherently a risk-sensitive judgement. |
| Adborth ar ddogfennau a gyflwynwyd<br><br>Feedback on submitted documents | **CYMRAEG:**<br>Pwysleisiodd yr Arolygiaeth fod y Ddogfen Cydymffurfio â Pholisïau (PCD) yn bwysig i ddangos asesiad clir, un llinell ar y tro o gydymffurfio â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSau) perthnasol, gan nodi'r dull a ddefnyddiwyd yn archwiliad Outer Dowsing fel enghraifft. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr ymgeisydd i ystyried a ddylid ymdrin â darpariaethau allweddol y Nodiadau Cyngor Technegol (TANau) perthnasol yn y PCD, hefyd.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth ei bod yn briodol cynnwys dogfennau cynllun datblygu yn y PCD ac y byddai amlygu'r polisïau mwyaf perthnasol ac unrhyw bolisïau y gallai'r datblygiad arfaethedig wrthdaro â nhw yn ddull cymesur, yn hytrach na'r dadansoddiad manylach sydd i'w gynnal ar gyfer yr NPSau.<br><br>Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylid osgoi ailadrodd yn y Datganiad Cynllunio ac awgrymodd y gellid atodi'r PCD i'r Datganiad Cynllunio, o bosibl.<br><br>Croesawodd yr ymgeisydd yr adborth a chadarnhaodd y byddai'n ystyried cynnwys y TANau.<br><br>Mae cyngor a51 ffurfiol yr Arolygiaeth ar adborth ar ddogfennau a gyflwynwyd ar gael yma: Cyngor ar y Ddogfen Raglen a thraciwr materion<br><br>**ENGLISH:**<br>The Inspectorate emphasised that the Policy Compliance Document (PCD) is important for demonstrating a clear, line-by-line assessment of compliance against the relevant National Policy Statements (NPS), noting the approach taken in the Outer Dowsing examination as an example. The Inspectorate advised the applicant to consider whether key provisions of the relevant Technical Advice Notes (TANs) should also be covered within the PCD. |

| | |
|---|---|
| | The Inspectorate advised that it is appropriate to include development plan documents within the PCD and that a proportionate approach would be to draw out the most relevant policies and any policies with which the proposed development may conflict, rather than the more detailed analysis to be undertaken for the NPSs.<br><br>The Inspectorate advised that repetition with the Planning Statement should be avoided and suggested that the PCD could potentially be appended as an annex to the Planning Statement.<br><br>The applicant welcomed the feedback and confirmed that it would consider the inclusion of the TANs.<br><br>The Inspectorate's formal s51 advice feedback on submitted documents can be found here: Advice in response to Programme Documents issues tracker |
| Cyfarfodydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn y dyfodol<br><br>Future PINS meetings | **CYMRAEG:**<br>Gofynnodd yr ymgeisydd i'r cyfarfod diweddariad prosiect nesaf gael ei gynnal ym mis Mehefin 2026. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y byddai'n rhannu rhai dyddiadau, maes o law.<br><br>**ENGLISH:**<br>The applicant requested that the next project update meeting takes place in June 2026. The Inspectorate confirmed it would share some dates in due course. |
| Unrhyw Fater Arall<br><br>AOB | **CYMRAEG:**<br>Ceisiodd yr ymgeisydd gyngor ynglŷn â pha ddogfennau y dylid eu cyflwyno'n ddwyieithog, gan holi a ddylai hyn gynnwys y crynodeb annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai'n briodol cyflwyno'r ddogfen hon yn ddwyieithog. Nododd yr Arolygiaeth hefyd, mewn achosion diweddar, fod llythyrau eglurhaol wedi cael eu cyflwyno'n ddwyieithog erbyn dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno, pe byddai'r cais yn cael ei dderbyn.<br><br>**ENGLISH:**<br>The applicant sought advice on which documents should be submitted bilingually, querying whether this should include the non-technical summary of the Environmental Statement. The Inspectorate advised that this document would be appropriate for bilingual submission. The Inspectorate also noted that, in recent cases, cover letters have been submitted bilingually at submission deadlines, should the application be accepted. |